

# Rhaglen Llysgenhadon Ifanc DofE Cymru

# 2024

CEISIADAU NAWR AR AGOR!

IEUENCTID HEB GYFYNGIADAU










**Fel Llysgennad Ifanc DofE Cymru bydd gennych gyfle unigryw i helpu i lunio gwaith DofE ledled Cymru. Byddwch hefyd yn cael hyfforddiant i wella eich sgiliau ar gyfer y rôl a meysydd eraill o'ch bywyd. Byddwch yn cael cynrychioli DofE mewn digwyddiadau, tra hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio, hyrwyddo a chynrychioli DofE ledled Cymru.**

## Pwy all fod yn Llysgennad Ifanc?

I fod yn Llysgennad Ifanc DofE Cymru, rhaid i chi fod-

- wedi cymryd rhan yn y DofE neu gwblhau eich DofE trwy ganolfan yng Nghymru.
- rhwng 16 ac 20 oed pan fyddwch yn cyflwyno eich cais.
- wedi cael caniatâd gan eich rhiant neu warcheidwad i wneud cais, os ydych o dan 18 oed.
- wedi cyflawni o leiaf un lefel o'ch Gwobr Dug Caeredin neu wedi cwblhau cyfran sylweddol o'ch gwobr Aur.
- yn teimlo'n angerddol am y DofE a bod yn hapus i rannu eich taith ag eraill a siarad am y gwahaniaeth y mae wedi'i wneud i'ch bywyd.

IEUENCTID HEB GYFYNGIADAU

# Beth i'w ddisgwyl?

Fel Llysgennad Ifanc DofE Cymru, byddwch yn gweithio gyda phobl o'r un anian â chi ledled Cymru sy'n rhannu eich angerdd am Wobr Dug Caeredin ac sy'n awyddus i hyrwyddo'r DofE fel cyfle i bob unigolyn ifanc.

**Bydd eich cyfraniad at y rhaglen yn cwmpasu 3 maes allweddol:**




Trwy weithdai ar-lein misol, byddwn yn gweithio gyda chi i ddatblygu eich sgiliau mewn meysydd fel siarad cyhoeddus, y cyfryngau ac arweinyddiaeth. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys cwrs preswyl, sy'n caniatáu i bawb ddod at ei gilydd i rannu syniadau a gwella hyder mewn lleoliad grŵp.

Cyfle i rannu'ch stori DofE yn ehangach a siarad mewn digwyddiadau DofE, ar-lein ac wyneb yn wyneb. Gall hyn gynnwys cyfarfod â'n cefnogwyr cyswllt a Grŵp Busnes DofE Cymru neu ein helpu gydag Ymweliad Brenhinol neu ddigwyddiad VIP.







Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru, Diwrnod Shwmae Su'mae ac Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl. Efallai bydd cyfleoedd hefyd i gwrdd â Llywodraeth Cymru i rannu'r effaith mae'r DofE wedi'i chael arnoch chi.

**Byddem yn awgrymu neilltuo tua 2 awr y mis i allu gwneud y mwyaf o'r rhaglen. Mae'r rhaglen yn wirfoddol, ond telir am unrhyw gostau rhesymol cyn belled â'n bod yn cytuno ar y rhain gyda chi ymlaen llaw.**

# Eich ymrwymiad i'r Rhaglen...

Bydd y rhaglen yn rhedeg rhwng mis Gorffennaf 2024 a mis Gorffennaf 2026

Mae angen ymrwymiad i gymryd rhan yn y rhaglen 2 flynedd, ac ymgysylltu'n rheolaidd â'r gweithdai a'r gweithgareddau ar-lein.

**Dyma ddyddiadau'r gweithdy a'r cwrs preswyl cyntaf:**

**1) Sesiwn Groeso Ar-lein**

Dydd Iau 18 Gorffennaf

**2) Cwrs preswyl adeiladu tîm ym Metws-y-coed**

Dydd Gwener 9 Awst - Dydd Sul 11 Awst

## Yr hyn sydd gan ein Llysgenhadon i'w ddweud...




Fy hoff ran yw cyfarfod â grŵp anhygoel o bobl o'r un anian, sydd â diddordebau tebyg, ac wedi'u dwyn ynghyd gan eu hedmygedd o DofE. Hefyd, roedd gallu eirioli dros DofE drwy wneud areithiau mewn sawl digwyddiad yn gwneud i mi deimlo y gallwn wneud gwahaniaeth i bobl ifanc yng Nghymru.




Fy hoff ran o'r rhaglen Llysgenhadon Ifanc fu cael cwrdd â phobl eraill sy'n rhannu diddordebau tebyg. Mae'r rhaglen wedi caniatáu i mi ddatblygu fy sgiliau gweithio mewn tîm, magu hyder a chreu cyfleoedd i mi ddilyn pethau sy'n bwysig i mi gan gynnwys datblygu'r Iaith Gymraeg yng Nghymru!





Fy hoff beth yw cael y cyfle i wneud rhywbeth gwahanol. Ni fyddwn byth wedi ennill y sgiliau sydd gennyf nawr trwy fynd i'r ysgol yn unig. Un o'r sgiliau mwyaf yw siarad cyhoeddus, ac rwyf wedi gwella'n aruthrol yn ystod fy nghyfnod fel Llysgennad Ifanc. Byddwch yn creu atgofion ac yn eirioli ar faterion sy'n bwysig i chi.




Bydd y Rhaglen Llysgenhadon Ifanc yn rhoi cymaint o gyfleoedd anhygoel i chi, nid yn unig yn ymwneud â DofE ond hefyd yn eich helpu i ddatblygu fel unigolyn ifanc. Fy hoff ran yw bod yn rhan o ddigwyddiadau fel gwirfoddoli yn Eisteddfod yr Urdd ac ymarfer fy Sgiliau Cymraeg.

## I gael gwybod mwy am yr hyn y gallwch ei ddisgwyl o'r rhaglen, edrychwch ar ein Cylchlythyrau Llysgenhadon isod-

Ebrill 2023




Awst 2023




Rhagfyr 2023




# Hygyrchedd

Er ein bod yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir i ymuno â'r rhaglen, ar hyn o bryd nid yw pobl o liw a phobl anabl yn cael eu cynrychioli cystal ag yr hoffem. Oherwydd hynny, rydym yn annog ymgeiswyr o'r cefndiroedd hyn yn arbennig.

Rydym wedi ymrwymo i greu rhaglen Llysgenhadon Ifanc amrywiol a chynhwysol ac rydym yn gwerthfawrogi ystod o safbwyntiau, sgiliau a phrofiad bywyd.

Mae'n bwysig eich bod yn bresennol mewn sesiynau, felly os ydych chi'n credu y gall hynny fod yn rhwystr i chi rhag cymryd rhan, rhowch wybod i ni yn eich cais ac mi weithiwn gyda chi i ddatrys y broblem.

# Sut ydw i'n ymuno?

Gallwch wneud cais i ddod yn Llysgennad Ifanc DofE Cymru yma-
[Cais Llysgenhadon Ifanc DofE]

Os ydych dan 18 oed, bydd angen caniatâd arnoch gan eich rhiant neu warcheidwad i wneud cais.

IEUENCTID HEB GYFYNGIADAU